Y Goeden Nadolig

Cysyniadau: **Llawenydd, mwynhad.**

Amcan: **Atgoffa'r plant o lawenydd y Nadolig a dangos fel mae'r goeden Nadolig o'i hailgylchu yn dod yn faeth i dyfiant arall.**

Cyfarpar: **Coeden Nadolig fechan.**

Cyflwyniad:

● Trafod coed Nadolig yn gyffredinol. Rhai ffug a rhai go iawn. Beth yw rhinweddau'r ddau fath? Gellir cadw'r goeden ffug o flwyddyn i flwyddyn ond bydd rhaid prynu coeden go iawn bob blwyddyn. Ymhen dim bydd y nodwyddau yn syrthio ond mae rhai i'w cael erbyn hyn sy'n cadw eu nodwyddau. Gellir, hefyd, drafod y prisiau.

Stori:

Ers dyddiau roedd Angharad wedi bod wrthi'n swnian ar ei mam i gael coeden Nadolig. Roedd pob un o'i ffrindiau yn ei dosbarth wedi gosod eu coed Nadolig ac wedi eu haddurno. Ond roedd ei mam yn bendant, 'Gwranda Angharad, dwyt ti ddim yn mynd i gael coeden rŵan. Mae hi'n rhy fuan o lawer. Mae 'na bythefnos i fynd tan y Nadolig. Mi awn ni i chwilio am goeden yr wythnos nesaf.'

A dyna lle roedd Angharad yn cyfrif y dyddiau tan yr wythnos nesaf. A bore Sadwrn dyma'r ddwy yn cychwyn am y ganolfan arddio. Roedd hi fel coedwig yno. Coed Nadolig ymhob man. Rhai tal, rhai byr, rhai ffug a rhai go iawn. Roedd Angharad wedi gwirioni'n lân. Ar ôl treulio rhan helaeth o'r bore yn cerdded o gwmpas roedd ei mam wedi blino ac Angharad yn dal i swnian. Dyma'r ddwy yn mynd i'r caffi er mwyn cael eistedd i lawr yn fwy na dim. Ond doedd Angharad ddim yn fodlon. Roedd hi wedi gweld coeden Nadolig fechan, hardd. A doedd dim troi arni.

'Mam,' meddai mewn llais awdurdodol, 'dyma'r goeden ydw i eisiau.'

'Mae honna'n rhy fach o lawer ar gyfer y lolfa,' meddai ei mam yr un mor awdurdodol. Gwelodd ei mam nad oedd hi'n mynd i ennill y frwydr, a dyma roi i mewn, a mynd i dalu am y goeden Nadolig.

Fuodd na ddim llawer o sgwrs ar y ffordd adref yn y car. Roedd Angharad wedi bod mor benderfynol ac roedd ei mam wedi blino'n lân.

Rhedodd Angharad nerth ei thraed i'r tŷ. 'Dad, mi ydw i wedi cael coeden Nadolig. Hon oedd yr orau yn y lle i gyd,' meddai wrth ei thad.

Drwy'r prynhawn bu Angharad wrthi'n brysur yn addurno'r goeden â phob math o beli lliwgar glas, coch a gwyrdd. Rhoddodd angel ar dop y goeden a robin goch, dyn eira a Siôn Corn yn hongian ar y canghennau ac ychydig o dinsel yma ac acw. Erbyn amser te, gyda help ei thad, roedd y goeden yn barod a'r goleuadau yn wincio bob hyn a hyn.

Buan iawn y daeth dydd Nadolig ac ar ôl agor yr anrhegion doedd gan Angharad fawr i'w ddweud wrth y goeden wedyn. Roedd yr anrhegion yn cael mwy o sylw, yn enwedig y beic pinc.

Ar ôl i'r Calan fynd heibio dyma ei mam yn dechrau swnian, 'Yli, Angharad, mae'n rhaid i'r goeden yma fynd o'r tŷ 'ma. Mae hi'n colli ei nodwyddau. Mae'r carped yma'n llawn o nodwyddau gwyrdd.'

'Mae Miss Jones yn dweud mai Ionawr 6ed ydi'r diwrnod i dynnu'r addurniadau i lawr ... '

'Miss Jones neu beidio, mae'r goeden yma'n mynd o'r tŷ 'ma heddiw,' meddai ei mam.

A dyna lle bu Angharad yn tynnu'r addurniadau a'u rhoi yn ôl yn y bocs tan y Nadolig nesaf.

'Wn i,' meddai ei mam, 'mi awn â'r goeden i'r ganolfan ailgylchu.' A ffwrdd â nhw. Dyma'r dyn yn cymryd y goeden a dyma fo'n dweud wrth Angharad a'i mam, 'Mi rown ni'r goeden yn y peiriant acw ac mi fyddwn ni'n defnyddio'r gweddillion i wneud gwrtaith ar gyfer yr ardd. Mi fydd y gwrtaith yn rhoi maeth i'r blodau a'r planhigion.'

'Er bod y goeden wedi colli ei nodwyddau mi fydd hi'n helpu'r blodau i dyfu yn y gwanwyn a'r haf. Ta ta yr hen goeden!' meddai Angharad. A ffwrdd â'r ddwy am adref.

Trafodaeth bellach:

● Ydych chi'n debyg i Angharad weithiau yn mynnu eich ffordd eich hun?

● Oedd mam Angharad yn iawn yn cael gwared â'r goeden cyn Ionawr 6ed?

● Ydi o'n syniad da ailgylchu coed Nadolig?

Emyn: Coeden Nadolig: Canu Clod 81

Dyfyniad o'r Beibl:

Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn." Luc 2:10 beibl.net

Munud i feddwl:

Wrth i ni addurno'r goeden Nadolig cofiwn am blant sydd heb ddim y Nadolig hwn.

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch i ti, O Dduw, am hwyl a mwyniant y Nadolig.
Diolch i ti am gyfle i ddathlu geni Iesu Grist.
Diolch i ti am y goeden Nadolig a'r addurniadau eraill sy'n rhoi lliw o'n cwmpas ac yn ein hatgoffa am eni Iesu. Amen.